**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO - DYDD GWENER, 1 RHAGFYR 2023 DYDD GWENER, 1 RHAGFYR 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. ABSALOM (CADEIRYDD)

Councillors S. Behr (Is-gadeirydd)
K. Chaplin
W. Hodgins
C. Smith
J. Wilkins
M. Veale

WITH: Prif Weithredwr Interim
Prif Swyddog Adnoddau
Rheolwr Gwasanaeth Masnachol a Chyfleoedd Busnes
Rheolwr Archwilio a Risg
Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant
Arweinydd Proffesiynol – Risg ac Yswiriant
Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Oedolion

**Yn cynrychioli Archwilio Cymru**
Ms. Charlotte Owen

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br><br>Cynghorydd Derrick Bevan, Mrs. Cheryl Hucker, Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau, Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol, Arweinydd Proffesiynol – Archwilio Mewnol, Uwch Bartner Busnes – Cyfrifeg Cyfalaf a Chorfforaethol a Deborah Woods, Mike Jones – Archwilio Cymru. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd fod unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd penderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2023, oedd yn cynnwys:<br><br>**<u>Eitem Rhif 11 – Adroddiad Buddiant Cyhoeddus – Canfyddiadau Adolygu Sicrwydd</u>**<br><br>-<br>Nodwyd y dylid diwygio'r teitl swydd yn y frawddeg gyntaf i ddarllen Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn y penderfyniadau fel cofnod gywir o'r trafodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i nodi'r Ddalen Weithredu. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 6** | **BLAENRAGLEN GWAITH 2023-24**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Flaenraglen Gwaith arfaethedig ar gyfer 2023/2024.<br><br>Nodwyd, gan nad oedd unrhyw eitemau fusnes wedi'u trefnu i gael eu hystyried yn y Pwyllgor ar 20 Rhagfyr 2023, y byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei ganslo.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y Flaenraglen Gwaith. | |
| **No. 7** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/2023 Y PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn dywedodd y Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant, er nad oedd gofyniad ffurfiol i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Cyngor, er budd arfer da caiff yr adroddiad ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol ar gyfer dibenion gwybodaeth.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr wybodaeth a roddwyd fel sicrwydd fod trosolwg a monitro priodol yn digwydd a bod gan unrhyw ddiffyg fesurau rheoli priodol ar waith i wneud y gwelliannau angenrheidiol. | |
| **No. 8** | **ARCHWILIO CYMRU: ARHOLIAD GOSOD AMCANION LLESIANT – CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Weithredwr Interim.<br><br>Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd fod diweddariadau rheolaidd ar y gofynion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar yr adeg briodol. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd danlinellu yn fras bwysigrwydd ymgysylltu ac wrth wneud hynny cefnogodd y Cyngor i ddechrau ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn nhermau'r amcanion. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef y rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai Ymateb Rheoli'r Cyngor a ddynodir yn Atodiad 1 yn ymateb yn briodol i argymhellion Archwilio Cymru. | |
| **No. 9** | <u>**ADRODDIAD DIWEDDARU BLYNYDDOL – DEFNYDDIO PWERAU DAN DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO (RIPA) 2000**</u><br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr wybodaeth yn yr adroddiad a roddwyd fel sicrwydd fod y trosolwg a'r monitro priodol yn digwydd. | |
| **No. 10** | <u>**CYNNYDD ARCHWILIAD MEWNOL 2023/24**</u><br><br>Cyflwynwyd adroddiad yr Arweinydd Proffesiynol – Archwilio Mewnol ar gyfer ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd ar y gweithgareddau ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf i 30 Medi 2023. | |
| **No. 11** | <u>**COFRESTR RISG CORFFORAETHOL CH2 2023 / 2024**</u><br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Ymunodd Mr. Martin Veale â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br><u>**CRR14 – Bydd methu gwella cyfraddau presenoldeb staff o fewn y Cyngor yn arwain at effaith annerbyniol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol ac yn ariannol.**</u><br><br>Ar yr adeg briodol, bydd y Rheolwr Risg yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y risg uchod.<br><br>Hysbyswyd aelodau fod Rheoli Absenoldeb yn destun archwiliad | |

| | | |
|---|---|---|
| | mewnol ar hyn o bryd sydd i ddod i ben yn y dyfodol agos a chyflwynir canfyddiadau'r archwiliad ynghyd â chynnydd i'r Pwyllgor maes o law.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod gweithdrefnau yn eu lle i fonitro rheoli risgiau sylweddol. | |
| **No. 12** | **<u>DRAFFT DDATGANIAD CYFRIFON 2022/2023</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a Drafft Ddatganiad Cyfrifon 2022/2023 er gwybodaeth, cyn ei ystyried i'w gymeradwyo ar ôl cwblhau'r archwiliad ariannol. | |